


# Faint o ddŵr sydd ei angen ar blanhigyn?

## Trosolwg gwers

Yn y wers hon, mae plant yn dysgu am yr hyn sydd ei angen ar blanhigion i dyfu a bod yn iach. Yna fe'u cyflwynir i effaith rhai o'r amodau tywydd eithafol y mae ffermwyr Prydain wedi'u profi yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael. Yna mae plant yn ymchwilio i faint o ddŵr sydd orau ar gyfer tyfiant planhigyn ac yn rhannu eu canlyniadau.

Gellid defnyddio'r wers hon i gyflwyno rhai o'r heriau y mae newid hinsawdd yn eu creu i ffermwyr Prydain a dechrau'r plant i feddwl sut y gallent ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd ar gyfer eu cais yn y gystadleuaeth Farmvention.

## Offer sydd ei angen

- Amrywiaeth o hadau
- Potiau planhigion bach (wedi eu gwneud o ddefnydd bioddiraddadwy)
- Silindr mesur neu jwg bychan

## Canllaw athrawon



| | |
|---|---|
| **Sleid 2: Beth sydd ei angen ar blanhigion?** | • Esboniwch bod planhigion, yn union fel bodau dynol, angen rhai pethau er mwyn iddyn nhw dyfu a bod yn iach. Gofynnwch os gall y plant feddwl am unrhyw bethau sydd eu hangen ar blanhigion? Gwnewch restr ar y wal weithio. |
| **Sleid 3: Fferm foron** | • Rhannwch y fideo Fferm Foron i ddangos yr amodau sydd eu hangen er mwyn i foron dyfu yn y DU.<br>• Gofynnwch i'r plant enwi unrhyw un o'r amodau maen nhw'n eu cofio o'r fideo a rhowch nhw ar y rhestr. |
| **Sleid 4: Golau** | • Trafodwch y power point i esbonio'n fwy manwl yr amodau sydd eu hangen ar blanhigion:<br>• Mae planhigion angen golau er mwyn tyfu a bod yn iach.<br>• Mae planhigion yn glyfar iawn a gallant droi golau haul yn fwyd i'w hunain yn eu dail.<br>• Mae angen golau haul arnom ni hefyd i roi Fitamin D inni a'n cadw'n iach. |
| **Sleid 5: Tymheredd addas** | • Gofynnwch i'r plant feddwl am sut maen nhw'n teimlo os ydyn nhw'n mynd yn rhy oer neu'n rhy boeth a beth maen nhw'n ei wneud amdano.<br>• Yn union fel ni, mae angen tymheredd addas ar blanhigion er mwyn bod yn iach. Os na fydd tymheredd eu hamgylchedd yn iawn, fydd yr hadau ddim yn dechrau tyfu. |
| **Sleid 6: Ffrwythau a llysiau Prydeinig** | • Esboniwch bod angen tymereddau gwahanol ar wahanol blanhigion. Dyma pam y gallwn dyfu rhai ffrwythau a llysiau ym Mhrydain ond nid pob un ohonynt. Mae angen i ffrwythau trofannol, er enghraifft, fod mewn amgylchedd llawer cynhesach er mwyn iddynt dyfu a bod yn iach.<br>• Esboniwch bod bwyta ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu ym Mhrydain yn un ffordd y gallwn ni ofalu am yr amgylchedd gan ei fod yn lleihau pa mor bell mae bwyd yn teithio cyn cyrraedd ein platiau. Mae hyn yn lleihau yr angen am drafnidiaeth, sydd yn lleihau llygredd aer. |

FARMVENTION    NFU EDUCATION




| | |
|---|---|
| **Sleid 7:**<br>**Dŵr** | • Yn union fel ni, mae angen dŵr ar blanhigion. Heb y maint cywir o ddŵr, ni all planhigion dyfu a bod yn iach.<br>• Ar ddechrau bywyd planhigyn, mae angen dŵr arno i wneud iddo ddechrau tyfu i fod yn eginblanhigyn bach.<br>• Ar ôl i'r eginblanhigyn dyfu rhai gwreiddiau, mae angen dŵr ar y planhigyn i gymryd y maetholion (pethau iach sy'n helpu'r planhigyn i dyfu) allan o'r pridd.<br>• Mae planhigion yn glyfar iawn a gallant wneud eu bwyd eu hunain yn eu dail gan ddefnyddio golau haul a dŵr. |
| **Sleid 8:**<br>**Sychder** | • Mae dŵr yn bwysig iawn i ffermwyr. Os nad oes digon o law, ni fydd eu cnydau'n gallu tyfu'n iawn. |
| **Sleid 9:**<br>**Llifogydd** | • Gofynnwch i'r plant beth maen nw'n feddwl fydd yn digwydd os oes gan blanhigion ormod o ddŵr?<br>• Mae gormod o ddŵr hefyd yn broblem fawr i ffermwyr.Gall llifogydd neu lawiad trwm effeithio ar iechyd pridd ffermwyr wrth iddo olchi i ffwrdd rhai o'r gronynnau pridd a'r maetholion sydd eu hangen ar blanhigion i dyfu a bod yn iach. |
| **Sleid 10:**<br>**Pridd iach** | • Mae pridd iach hefyd yn storio carbon. Mae carbon yn yr atmosffer yn achosi newid yn yr hinsawdd felly trwy edrych ar ôl eu pridd a'i gadw'n iach, mae ffermwyr yn helpu i ymladd yn erbyn newid yn yr hinsawdd. |
| **Sleid 11:**<br>**Faint o ddŵr sydd ei angen ar blanhigyn?** | • Esboniwch bod angen gwahanol faint o ddŵr ar wahanol blanhigion.<br>• Cyflwynwch y dasg: bydd y plant yn cynnal ymchwiliad i ddarganfod faint o ddŵr sydd ei angen ar blanhigyn penodol. |
| **Sleid 12:**<br>**Eich ymchwiliad** | • Esboniwch yr ymchwiliad: bydd y plant yn gweithio mewn grwpiau i blannu tri o'r un hadau.<br>• Bydd un hedyn yn derbyn dim dŵr, bydd un yn cael ychydig bob dydd a bydd yr un arall yn cael llawer o ddŵr bob dydd.<br>• Modelwch sut i osod yr ymchwiliad a phlannu'r hadau.<br>• Gofynnwch i'r plant osod eu hymchwiliad yn eu grwpiau. Efallai yr hoffech roi gwahanol fath o hadau i bob grŵp. |
| **Sleid 13:**<br>**Arsylwi** | • Cytunwch ar y ddau gyfaint o ddŵr fydd yn cael eu defnyddio.<br>• Modelwch sut i fesur dŵr yn gywir.<br>• Gofynnwch i'r plant gadw dyddiadur i gofnodi eu arsylwadau wrth i'r planhigion dyfu a heriwch nhw i gadw cofnod bob dydd o'r cyfanswm o ddŵr maen nhw wedi rhoi i'r planhigion. |
| **Sleid 14:**<br>**Casgliad** | • Gofynnwch i'r plant egluro eu canlyniadau a'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu am faint o ddŵr sydd ei angen ar eu planhigyn. |
| **Sleid 15:**<br>**Cystadleuaeth** | • Anogwch y plant i feddwl sut y gallen nhw ddefnyddio'u dysgu am yr hyn sydd ei angen ar blanhigion ac iechyd y pridd i'w helpu nhw i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd. |






## Cysylltiadau i'r Cwricwlwm i Gymru

| Maes dysgu a phrofiad | Disgrifiad dysgu | Cam cynnydd 1 |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomonau. | • Rwy'n gallu archwilio'r amgylchedd, gwneud arsylwadau a mynegi fy syniadau. |
| | Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | • Rwy'n gallu adnabod bod planhigion ac anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu. |
| | Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau. | • Rwy'n gallu archwilio priodweddau defnyddiau, a dewis gwahanol ddefnyddiau at ddefnydd penodol. |

